



Samplu filysau corionig (CVS)

Mae'r daflen yma'n cynnig gwybodaeth i chi am weithred o'r enw samplu filws corionig (chorionic villus sampling neu CVS) y cawsoch chi gyfle i'w chael.

Efallai'ch bod chi wedi cael cyfle i gael CVS oherwydd:

- bod hanes yn eich teulu o anhwylder wedi'i etifeddu;
- bod plentyn ag anhwylder cromosomau gennych chi'n barod neu'ch bod chi wedi cael beichiogrwydd blaenorol (oedd heb fynd i'w gyfnod llawn) a bod anhwylder cromosomau wedi dod i'r amlwg;
- rydych chi'n cario cyflwr wedi'i etifeddu (er enghraifft, anhwylderau cryman-gell); neu
- rydych chi wedi cael sgan uwchsaïn sy'n awgrymu bod mwy o siawns y bydd cromosomau annormal gan eich babi.

Os byddwch chi'n penderfynu cael CVS, darllenwch y wybodaeth ychwanegol am y weithred ar dudalen 6 o'r daflen.

Gallai'r wybodaeth yma eich helpu i benderfynu a ydych chi'n awyddus i gael yweithred neo beidio.

Gallwch chi hefyd ofyn i'ch bydwraig neu'ch obstetregydd am fwy o wybodaeth.



Cyflwyniad

Gweithdrefn yw CVS sy'n golygu bod meddyg yn tynnu ychydig iawn o feinwe o'ch brych yn ystod y beichiogrwydd. Bydd labordy'n gwneud profion ar y celloedd sydd yn y feinwe i edrych ar gromosomau'ch babi. Mae'n bosib gwneud CVS rhwng wythnosau 11-14 o'r beichiogrwydd, ond dan amgylchiadau arbennig mae'n bosib ei gwneud ar ôl wythnos 14 hefyd.

Os byddwch chi'n cael CVS, mae risg o 2% y gallwch chi gael erthyliad naturiol (mae hyn yn golygu y gall un fenyw o bob 50 golli ei babi). Mae erthyliad naturiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd hyd at dair wythnos ar ôl y CVS. Mae'n amhosib dweud pam mae hyn yn digwydd ac i bwy y bydd yn digwydd. Gall ddigwydd os oes problem ar gromosomau'ch babi neu beidio. Mae CVS yn cael ei wneud yn gynnar mewn beichiogrwydd, sef yr adeg pan mae erthyliadau naturiol ychydig yn fwy cyffredin.

Gan mai gweithred arbenigol yw CVS, efallai na fyddwch chi'n gallu ei chael yn eich uned famolaeth arferol. Efallai y byddwch chi'n cael apwyntiad i fynd i uned famolaeth arall.

Profion ar y cromosomau

Ym mhob un o gelloedd ein cyrff, mae 46 o gromosomau (23 pâr) fel arfer. Mae'r rhain wedi'u rhifo rhwng 1 a 22, a'r cromosomau rhyw yw'r 23ain pâr: XX i ferch, XY i fachgen. Mae miloedd o enynnau ym mhob un o'r cromosomau, a'r rhain yw'r cyfarwyddiadau sy'n dweud wrth y corff sut mae tyfu, datblygu a gweithredu.

Yng Nghymru, mae dau brawf yn cael eu gwneud ar y sampl o feinwe y bydd meddyg yn ei gymryd wrth wneud CVS. Mae'r rhain yn cael eu galw'n brawf **PCR** a phrawf **caryoteip**.

Prawf PCR (adwaith cadwynd polymerase)

Dim ond am dair problem yng nghromosomau'r babi y mae'r prawf PCR yn chwilio fel arfer:

- syndrom Down (sy'n achosi peth anabledd dysgu ond nid yw'n peryglu bywyd y babi);
- syndrom Edwards (anhwylder difrifol ar y cromosomau a allai beryglu bywyd y babi); a
- syndrom Patau (anhwylder prin a difrifol a allai beryglu bywyd y babi).

Os oedd y sgan uwchsain a gawsoch chi'n gynnar yn eich beichiogrwydd (i bennu'r dyddiad mae disgwyl i'r babi gyrraedd) yn dangos bod siawns uwch fod syndrom Turner ar eich babi, efallai mae prawf arall yn cael ei wneud ar sampl y prawf PCR. Dim ond ar fenywod y mae syndrom Turner yn effeithio.

Mae posibilrwydd y gallai'r prawf caryoteip (mae disgrifiad yn yr adran nesaf) ddod o hyd i broblemau eraill yn y cromosomau. Gall hyn ddigwydd hyd yn oed os yw canlyniad eich prawf PCR yn normal.

Caryoteip

Mae'r prawf yma'n cymryd mwy o amser na'r prawf PCR ond bydd yn dod o hyd i'r rhan fwyaf o broblemau yn y cromosomau.

I wneud y prawf, mae'r celloedd o'ch brych yn cael eu tyfu (sef creu meithriniaid) yn y labordy. Bydd staff y labordy'n archwilio'r celloedd dan ficrosgop i chwilio am newidiadau yn nifer ac ymddangosiad cromosomau'ch babi.

Ond ni fydd hyd yn oed prawf caryoteip yn dod o hyd i **bob** newid yn y cromosomau. Mae rhai mân newidiadau'n amhosib eu gweld, hyd yn oed dan ficrosgop. Dim ond trwy wneud profion arbenigol y mae modd

eu gweld. Nid yw'r profion ychwanegol yma'n rhan o'r prawf caryoteip.

Ni fydd y prawf caryoteip yn dod o hyd i:

- newidiadau mewn genynnau unigol, fel ffibrosis systig (mae miloedd o enynnau ym mhob cromosom);
- microddileadau (colli segmentau bach o gromosom); neu
- fân newidiadau eraill yn y cromosomau.

Anhwylderau genyn unigol

Newidiadau mewn un genyn sy'n achosi anhwylderau genyn unigol. Os oes hanes yn eich teulu o anhwylder wedi'i etifeddu sy'n cael ei achosi gan newid mewn genyn arbennig (fel ffibrosis systig), efallai y cewch chi gyfle i gael prawf penodol, sef prawf genyn unigol, ar gyfer hyn. Efallai'ch bod chi eisoes wedi trafod hyn gyda rhywun yn y gwasanaeth geneteg, neu gall eich bydwaig neu obstetregydd eich cyfeirio at y gwasanaeth ar ôl i chi sôn am hanes o anhwylder wedi'i etifeddu yn y teulu. Os bydd prawf genyn unigol yn cael ei wneud ar sampl CVS, byddwch chi fel arfer yn cael cyfle i gael prawf caryoteip hefyd.

Nid yw prawf caryoteip yn dangos sut mae'ch babi'n tyfu ac yn datblygu. Dim ond sgan uwchsain rhwng wythnosau 18-20, pan fydd eich babi bron wedi gorffen ffurfio, fydd yn dangos hyn.

Os oes problem

Mae problemau'n siŵr o ddatblygu mewn ambell i feichiogrwydd. Os yw'ch profion yn dangos bod problem, byddwch chi'n cael gwybodaeth a chymorth i'ch helpu i benderfynu beth i'w wneud am eich beichiogrwydd. Mae arbenigwyr (fel ymgynghorwyr ym maes meddygaeth y ffetws, genetegwyr a phaediatregwyr) ar gael i roi gwybodaeth ac i'ch helpu i benderfynu.

Bydd rhai menywod yn dewis paratoi ar gyfer geni'r babi gan wybod am y broblem. Efallai y byddol menywod eraill yn ddewis terfynu'r beichiogrwydd. Bydd menywod eraill eto'n dewis gadael i'r beichiogrwydd barhau, gan ryddhau'r babi i gael ei fabwysiadu wedyn. Mae'r rhain yn benderfyniadau anodd a byddwch chi'n cael gwybodaeth i'ch helpu i wneud y penderfyniad sy'n iawn i chi.

Mae cael gwybod am broblem ar y babi'r yn eich croth yn creu llawer o ofid, ac mae'n anodd penderfynu beth i'w wneud. Mae'r mwyafrif o fenywod yn awyddus i gael peth cefnogaeth. Gall y gefnogaeth ddod gan eich

partner, eich teulu, neu'ch ffrindiau neu gan weithwyr y proffesiynau iechyd sy'n gofalu amdanoch chi. Mae croeso i chi ddod â'ch partner neu ffrind gyda chi ar gyfer eich apwyntiadau yn yr ysbyty.

Gall y caryoteip ganfod sawl gwahanol fath o anhwylder yn y cromosomau. Gall y canlyniad ddangos bod problem arall ar eich babi er ei fod efallai'n dangos nad oes syndrom Down, syndrom Edwards, syndrom Patau neu syndrom Turner arno.

Os bydd hyn yn digwydd, byddech chi'n cael cyfle i drafod y canlyniad gyda meddyg a bydwraig sy'n arbenigo mewn sgrinio cyn-geni. Byddech chi hefyd yn cael cyfle i drafod y canlyniad gyda rhywun sy'n arbenigo mewn geneteg.

Efallai y bydd gofyn i chi ac i dad y babi roi samplau o waed ar gyfer profion caryoteip ac i helpu i weld a oes problem ar y babi.

Mwy o wybodaeth

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth o:

Antenatal Results and Choices (ARC)

73 Charlotte Street

Llundain

WIT 4PN.

Llinell gymorth: 0207 631 0285

Gwefan: www.arc-uk.org

E-bost: info@arc-uk.org

Os byddwch chi'n penderfynu cael CVS

Paratoi ar gyfer CVS

- Gallwch chi fwyta brechwast neu ginio ysgafn cyn eich apwyntiad.
- Bydd gofyn i'ch pledren (bladder) fod yn llawn ar gyfer y sgan y byddwch chi'n ei gael cyn y CVS.
- Efallai y bydd gofyn i chi wagu'ch pledren ar gyfer y weithred CVS ei hun.
- Efallai y byddai'n fwy cyfforddus i chi wisgo dillad llac.
- Mae croeso i chi ddod â'ch partner neu ffrind gyda chi i fod yn gefn i chi yn ystod y weithdrefn, ond peidiwch â dod ag unrhyw blant.
- Os yw'n bosib, trefnwch fod rhywun ar gael i'ch gyrru chi gartref.

Beth sy'n digwydd yn ystod y CVS ei hun?

Mae'n cymryd rhyw 20 munud i wneud CVS. Byddwch chi'n dod fel

claf allanol i'r clinig cyn-geni fel arfer. Byddwch chi'n effro trwy gydol y weithred, ac yn gorwedd i lawr.

Byddwch chi'n cael sgan uwchsain cyn y CVS. Pwrpas y sgan yw gweld safle'r babi a chwilio am y man gorau i gymryd y sampl o'ch brych.

Bydd meddyg yn rhoi pigiad o anaesthetig lleol i chi i ladd y teimlad yng nghroen eich abdomen. Bydd eich abdomen yn cael ei lanhau wedyn gydag antiseptig i leihau'r perygl o gael haint. Bydd y meddyg yn gosod nodwydd trwy'ch croen a wal eich croth, ac wedyn yn cymryd sampl bach o'r brych. Bydd y meddyg yn gwyllo'r sgan uwchsain i'w arwain wrth osod yn nodwydd er mwyn osgoi ei rhoi'n rhy agos at y babi. Gallai'r prawf fod braidd yn anghyfforddus.

Bydd y meddyg neu'r fydwraig yn archwilio'r sampl dan ficrosgop wedyn i weld a oes digon o feinwe i wneud y prawf. Os nad oes digon, bydd rhaid i'r meddyg gymryd sampl arall.

Bydd gofyn i chi hefyd roi sampl o waed. Pwrpas gwneud hyn yw rhoi cyfle i'r labordy sicrhau mai canlyniadau'r babi yw'r rhai sy'n dod o'r sampl CVS, nid eich canlyniadau chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl y weithred

Ar ôl y weithred, fe ddylech chi aros yn y clinig i orffwys am ryw hanner awr. Efallai y bydd gennych chi grampiau ysgafn fel poen mislif wedyn.

Os yw'ch grŵp gwaed yn Rhesws negatif, byddwch chi'n cael cyfle i gael pigiad gwrth-D ar ôl y weithred. Pwrpas y pigiad yw lleihau'r posibilrwydd o weld gwrthgyrff yn datblygu yn eich gwaed, sef rhywbeth sy'n gallu digwydd os yw grŵp gwaed eich babi'n Rhesws positif.

Bydd rhai meddygon yn eich cynghori i gymryd pethau'n dawel am ddiwrnod neu ddau ar ôl y weithred. Dylech chi hefyd osgoi rhyw, codi pethau trwm ac ymarfer corff egniol. Ond nid oes angen i chi aros yn eich gwely.

Os byddwch chi'n teimlo unrhyw boen neu anghysur, gallwch chi gymryd dos arferol o baracetamol.

Mae'r mwyafrif o fenywod wedi dod dros y weithred yn llwyr ar ôl dau ddiwrnod.

Cadwch eich llygaid ar agor am y rhain

- Poenau drwg sydd ddim yn cael eu rheoli gan gyffuriau lleddfu poen (fel paracetamol).
- Unrhyw waedu neu redlif (discharge) annymunol o'r gwain.
- Unrhyw hylif yn gollwng o'ch gwain.
- Teimlo'n anhwylyd yn sydyn gyda thymheredd uchel neu symptomau ffliw.

Nid yw'r symptomau yma bob amser yn golygu bod problem wedi codi, ond efallai fod angen mwy o ofal a sylw arnoch chi. I gael cyngor, cysylltwch â'r:

- clinig lle y cawsoch chi'r CVS;
- eich bydwaig; neu
- eich meddyg teulu.

Cael canlyniadau'r prawf

Bydd canlyniad eich prawf PCR ar gael o fewn tri diwrnod fel arfer, a chanlyniad y prawf caryoteip ymhen tua phythefnos fel arfer. Os bydd canlyniad y prawf PCR yn dangos bod problem ar eich babi, efallai y byddwn ni'n gofyn i chi aros am ganlyniad y prawf caryoteip cyn i chi ddod i unrhyw benderfyniad ynglŷn â'ch beichiogrwydd.

Bydd y fydwraig neu'r meddyg yn trafod y broses o roi canlyniad eich

prawf i chi. Efallai y byddwch chi'n awyddus i ddod i'r ysbyty i gael y canlyniad neu gallwch chi ddewis ei gael dros y ffôn. Os byddwch chi'n dewis cael y canlyniad dros y ffôn, cofiwch y gallai'r prawf dynnu sylw at broblem sydd wedi codi yn eich beichiogrwydd. Os felly, efallai y byddai'n well gennych chi ddod yn bersonol i gael y canlyniad er mwyn i chi gael cyfle i siarad gyda rhywun a fyddai'n gallu ateb eich cwestiynau. Mae'r amser mae'n cymryd i gael canlyniadau profion ar gyfer anhwylderau genyn unigol yn amrywio'n ôl y prawf. Bydd gofyn i chi fynd ati cyn cael y prawf i wneud trefniadau gyda'r tîm geneteg i gael eich canlyniadau.

Mae'n cymryd mwy o amser weithiau i dyfu'r celloedd yn y labordy a bydd

rhaid i chi aros rhai dyddiau'n ychwanegol am ganlyniad y prawf caryoteip. Os bydd y celloedd yn tyfu'n arbennig o araf, nid yw hyn yn golygu bod problem wedi codi gyda'ch babi.

Weithiau, yn achos llai nag un prawf o bob 100, nid yw'r celloedd yn tyfu yn y labordy a fyddwch chi ddim yn cael canlyniad i'r prawf. Efallai y byddwch chi'n cael cyfle i gael gweithred CVS arall.

Bydd y prawf caryoteip yn dangos rhyw eich babi. Os nad ydych chi'n awyddus i wybod ai bachgen neu ferch yw'ch babi, dywedwch wrth eich bydwraig neu'ch meddyg cyn y prawf.

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth am ganlyniadau profion CVS gan eich bydwraig neu o'r clinig lle y cawsoch chi'r weithred CVS.

Manylion cysylltu lleol